Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

MAE'N RHAID GWEITHREDU NAWR

YDYCH CHI'N BAROD AM REOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDA'R UE?

DARGANFYDDWCH BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD DRWY DDEFNYDDIO'R OFFERYN GWIRIO

GOV.UK/MATERIALS-2021

Gwiriwch
Newidiwch
Ewch

Neges frys gan yr Ysgrifennydd Busnes

Dim ond ychydig **dros fis** sydd i fynd bellach tan ddiwedd y cyfnod pontio a bydd rheolau newydd i ddilyn o'r 1af o Ionawr 2021 ymlaen. Fel yr Ysgrifennydd Busnes, rwy'n eich annog i **WEITHREDU NAWR** i osgoi ymyriadau i weithrediadau eich busnes pan ddaw'r cyfnod pontio i ben.

Fel busnes yn y sector metelau a deunyddiau, gallwch ddarganfod beth sydd angen i chi wneud wrth fynd i gov.uk/materials-2021. Y prif gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer hyn yw:

1. **Gwiriwch beth yw'r rheolau newydd o ran mewnforio ac allforio nwyddau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Phrydain Fawr o'r 1af o Ionawr 2021. Bydd rheolau gwahanol yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.**
   Gall eich busnes wynebu oedi, aflonyddwch neu gostau gweinyddol os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau tollau newydd o'r 1af o Ionawr 2021.

2. **Darllenwch y canllawiau sydd ar GOV.UK i ddeall y trefniadau masnachu ar gyfer gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE o'r 1af o Ionawr 2021. Gwiriwch os yw'r DU wedi negodi cytundeb masnachu gyda'r wlad y byddwch yn masnachu â hi.**
   Gall eich busnes wynebu aflonyddwch wrth fasnachu nwyddau rhwng y DU a gweddill y byd os nad ydych yn ymwybodol o'r trefniadau masnachu gyda gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE o'r 1af o Ionawr 2021. Os nad ydych yn ymwybodol o'r trefniadau masnachu newydd gyda gwledydd y tu allan i'r UE o'r 1af o Ionawr 2021, efallai y bydd eich busnes yn wynebu aflonyddwch wrth fasnachu nwyddau rhwng y DU a gweddill y byd.

3. **Os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon.**
   Daw Protocol Gogledd Iwerddon i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio. Bydd yna ddarpariaethau arbennig a fydd yn berthnasol i Ogledd Iwerddon yn unig, felly os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r cyfarwyddyd diweddaraf ar: gov.uk/Northern-ireland-trade.

4. **Ymgyfarwyddo eich hun â phroses rhwymedïau masnach newydd y DU ar GOV.UK.**

   O'r 1af o Ionawr 2021, os ydych yn credu bod eich busnes wedi dioddef oherwydd arferion mewnforio annheg, gallwch gyflwyno cais i system rhwymedïau masnach newydd y DU.

GALL Y NEWIDIADAU GYMRYD MWY O AMSER I'W GWEITHREDU NAG YR YDYCH CHI'N MEDDWL, FELLY DECHREUWCH HEDDIW.

Mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys webinarau i'ch arwain drwy'r newidiadau. Mae'r rhain ar gael i'w gwylio ar: **gov.uk/transition-webinars**. Dylech hefyd wirio gyda'ch cyflenwyr a'ch cwsmeriaid eu bod nhw hefyd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae hwn yn gyfnod heriol, ond mae'r cyfnod pontio yn dod i ben ar yr 31ain o Ragfyr 2020 ac **NI FYDD ESTYNIAD**. Oni bai eich bod yn gweithredu nawr, mae risg y bydd ymyriadau i weithrediadau eich busnes. Bydd y Llywodraeth yno i'ch helpu i gymryd mantais o'r nifer o gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil bod yn genedl fasnachu annibynnol.

Yn gywir,

Yr Gwir Anh. Alok Sharma MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

SGANIWCH I WRANDO AR EIN GWEMINARAU

- Gwiriwch
- Newidiwch
- Ewch

Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

MAE RHEOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDAG EWROP YN DECHRAU AR 01 INOAW 2021

MAE CAMAU SYDD ANGEN I'CH BUSNES EU CYMRYD NAWR AR GOV.UK/MATERIALS-2021

SSL-MET-C